



# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

**Y CYNGOR – 6ED GORFFENNAF, 2023**

**EITEM 6 - CWESTIYNAU**

**Ian Jones**  
**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

[www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

# Eitem 6

## EITEM 6 – CWESTIYNAU

### (A) Cwestiwn gan Aelod o'r Cyhoedd

#### (1) **Cwestiwn gan Mr Ieuan Wyn ar ran Cylch yr Iaith (*cyfeiriad wedi'i ddarparu yn unol â'r gofyn yn y Cyfansoddiad*)**

“O ystyried bod Adran Addysg a Chabinet y Cyngor wedi caniatáu sefyllfa lle bo –

- plant yn cael eu trochi yn unedau'r gyfundrefn drochi am 20% yn llai o amser nag o'r blaen, a hynny drwy gwtogi'r amser y mae'r plant yn yr unedau o 5 diwrnod yr wythnos i 4;
- cwtogi staffio unedau trochi o ddau athro i un;
- unedau trochi yn gorfod cau am gyfnodau o ganlyniad i absenoldeb a phrinder athrawon llanw cymwys;
- a hefyd, oherwydd y lleihad, cyfyngu ar allu staff unedau trochi i fynd i'r ysgolion i roi arweiniad a chymorth;

onid ydi hi'n wir bod Adran Addysg a Chabinet y Cyngor wedi bod yn gyfrifol am wanychu effeithiolrwydd y ddarpariaeth drochi, a bod angen cywiro'r sefyllfa?”

#### **Ateb – Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Beca Brown**

“Cyflwynwyd adroddiad yn seiliedig ar weledigaeth yr Adran Addysg ar gyfer y Gyfundrefn Drochi tuag at 2023 a thu hwnt gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 10 Mehefin 2021. Nodwyd yn yr adroddiad fod addysg drochi yn greiddiol i bolisi iaith addysg Gwynedd a'r CSGA. Nodwyd hefyd i'r peilot gomisiynwyd ar gais Cabinet y Cyngor amlygu'r angen i'r weledigaeth newydd ystyried lles y dysgwyr, a'r angen iddynt gadw cysylltiad gyda'u cyfoedion tra yn yr unedau iaith gan fod nifer yn ei chael hi'n anodd i ymdoddi'n ôl i'w hysgol leol ar ôl cyfnod mewn Canolfan, ynghyd â'r angen i gryfhau'r berthynas gydag ysgolion i alluogi cynnydd pellach o ran cefnogaeth i staff yng nghydestun datblygiad iaith a dulliau trochi llwyddiannus. Wrth drafod y weledigaeth newydd yn ei chyfanrwydd hefo penaethiaid Cynradd ac Uwchradd Gwynedd yn dorfol Mehefin 16eg a'r 17eg croesawyd y bwriad i'r hwyrdyffodiaid barhau â'r cyswllt efo'r ysgol leol yn ystod y cwrs trochi dwys. Golyga hyn fod pob dysgwr yn mynychu canolfan trochi iaith am 4 diwrnod yr wythnos dros gyfnod o 10 wythnos. Ar y 5ed diwrnod mae'r plant yn dychwelyd i'r fam ysgol gyda chefnogaeth aelod o staff y canolfannau. Rhoddodd y Cabinet sêl bendith unfrydol i'r penderfyniad hwn ar 6 Gorffennaf 2021.

Ers gwireddu'r weledigaeth newydd hon a sefydlu'r gyfundrefn addysg drochi yn Ionawr 2023 mae dau gwrs trochi dwys wedi eu cynnal. Dengys asesiadau'r athrawon fod cyflawniad y dysgwyr ar ddiwedd y cwrs yn gyson â chanlyniadau cyrsiau blaenorol. Mae sylwadau penaethiaid yr ysgolion sy'n bwydo'r unedau hefyd yn gadarnhaol ac yn nodi fod y plant yn gwerthfawrogi'r cyfle i gadw mewn cysylltiad â'r fam ysgol a'u cyfoedion, yn ogystal maent yn cydnabod fod y berthynas rhwng yr unedau a'r ysgolion wedi cryfhau.

Wrth sefydlu'r Gyfundrefn Addysg Drochi ar ei newydd wedd cyflwynwyd strwythur staffio newydd yn cynnwys Pennaeth, Dirprwy, athrawon ac uwch-gymorthyddion. Mae'r strwythur hwn yn gyfle i greu un tîm sy'n cydweithio ar droi'r weledigaeth yn realiti. Mae cyfraniad ein holl staff yn allweddol at lwyddiant y cyrsiau trochi. Mae'r strwythur hefyd yn

sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus i bob aelod o staff ac mae cytundebau parhaol yn sicrwydd i'r gweithlu ac i gysondeb a pharhad o fewn y gyfundrefn.

Fel Awdurdod gwyddom i sicrwydd na chaewyd unrhyw uned drochi o fewn ein cyfundrefn o ganlyniad i absenoldeb a phrinder athrawon llanw cymwys, ac mae'r strwythur staffio newydd yn sicrhau mwy o wytnwch yn y gyfundrefn i allu ymateb i amgylchiadau ble bo aelod o staff yn absennol.

O fewn y gyfundrefn, darperir cyfle wythnosol i'r staff fynd i ysgolion prif lif i gefnogi, rhoi arweiniad a chymorth. Byddant hefyd yn treulio cyfnodau ar ddiwedd pob cwrs yn darparu cyfnodau ôl-ofal i'r plant. Yn ogystal mae staff y gyfundrefn wedi cynnal hyfforddiant penodol i holl staff Cyfnod Sylfaen y sir ar egwyddorion trochi llwyddiannus ac yn cynllunio dilyniant i staff CA2 a CA3.

Rydym ar hyn o bryd hefyd yn ymgynghori hefo penaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd sydd mewn ardaloedd seisnigedig i gydweithio, hyfforddi a rhoi cefnogaeth ymarferol am gyfnodau rheolaidd trwy gydol mis Medi cyn cychwyn y cwrs trochi ddechrau'r Hydref. Mae hyn yn gynydd ac yn gynnig newydd i'r drefn flaenorol.

Wrth sefydlu'r gyfundrefn addysg drochi a'i gweithredu mae Adran Addysg a Chabinet y Cyngor wedi rhoi'r plentyn yn ganolog i'w cynlluniau er mwyn sicrhau fod y dysgwyr mewn lle da i ddysgu a chaffael iaith ac o ganlyniad mae'r gwasanaeth yn fwy cynhwysol ac yn fwy effeithiol.

Ar ben hynny bu tîm llawn o arolygwyr Estyn yn arolygu'r Awdurdod yr wythnos diwethaf ac o fewn yr arolygiad dewiswyd craffu'n benodol ar faes y Gymraeg. Er nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwnnw'n gyhoeddus eto bydd yr adroddiad hwnnw wedi ei gyhoeddi ddechrau Medi."

## **(B) Cwestiynau gan Aelodau Etholedig**

### **(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Dewi Jones**

"Ydi'r Cyngor yn ystyried lefelau amddifadedd mewn cymuned wrth benderfynu faint o ddarpariaeth mae cymuned yn ei dderbyn gan Wasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd?"

#### **Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown**

"Fel rhan o'r broses o Ail Fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid yn 2018 fe gwblhawyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb a oedd yn cynnwys manylion am nodweddion eraill megis Difreintedd a Thlodi. Mewn ymateb i'r asesiad yma, fe nodwyd pwysigrwydd i'r gwasanaeth barhau i gynnal swyddfa a chanolfan ieuenctid yn y 2 gymuned fwyaf difreintiedig (yn unol â diffiniad Llywodraeth Cymru, sef Maesgeirchen a Chaernarfon). Yn ychwanegol i bresenoldeb, mae'r Gwasanaeth mewn partneriaeth gyda Chyngor Tref Caernarfon a gyda Phartneriaeth Maesgeirchen wedi sicrhau darpariaeth gyson yn y 2 gymuned hon i bobl ifanc gydol y flwyddyn (Clwb Cymdeithasol yng Nghaernarfon; Prosiectau Cymunedol drwy'r Flwyddyn ym Maesgeirchen).

Mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn wasanaeth am ddim sydd â phresenoldeb ymhob ysgol uwchradd a chymunedau ar draws Gwynedd. Mae'r gweithgareddau cymunedol a

gynhelir wedi cyrraedd 42 o gymunedau ar draws y sir, gan gynnwys ardaloedd difreintiedig eraill megis Deiniolen, Bethesda, Blaenau Ffestiniog a Phenygroes. Mae'r Tîm Cymorth Ôl-16 hefyd yn cefnogi pobl ifanc ar draws y sir, gan ymateb i'w anghenion waeth ble maent yn byw.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yno i wasanaethu pobl ifanc ledled Gwynedd, ac yn cydnabod y gall person ifanc o unrhyw gymuned yn y sir wynebu rhwystrau a heriau wrth dyfu i fyny, gan ddatgysylltu o addysg, hyfforddiant neu waith, waeth ble maent yn byw.

Dros y flwyddyn ddiwethaf cafwyd bron i bedair mil ar bymtheg (18,736) o gysylltiadau gyda'r gwasanaeth gan blant a phobl ifanc Gwynedd. Dros ddeg mil (10,747) o'r rhain yn gysylltiadau gyda'r prosiectau cymunedol.

Mae gwaith ieuenctid yn wasanaeth cyffredinol sydd yn parchu safbwyntiau a barn pobl ifanc drwy eu cael hwy i gyfrannu at y gwaith o gynllunio, creu a sefydlu gwasanaethau a darpariaeth sy'n diwallu eu hanghenion a bodloni eu dyheadau. Mae'r ddarpariaeth yn dibynnu ar gyfranogiad pobl ifanc gan ystyried eu gofynion, eu dymuniadau, eu diddordebau a'u dyheadau."

## **(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Huw Rowlands**

"Pa gynlluniau sydd ar waith er mwyn gwella'r trefniadau casglu sbwriel yng Ngwynedd, fel bod y diffygion presennol yn cael eu goresgyn, a chasgliadau yn cael eu gwneud ar amser ac yn unol â'r gofynion statudol?"

### **Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Diolch am y cwestiwn.

Fel yr ydych yn ymwybodol mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i drawsnewid gwasanaeth casglu gwastraff yma yng Ngwynedd. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r gweithlu, goruchwylwyr a'r undebau i drawsnewid y maes.

Roedd lefelau salwch uchel a threfniadau hanesyddol yn golygu nad oedd y gwasanaeth yn gwneud y mwyaf o oriau gwaith cynhyrchiol yn y gorffennol. Mae'n debyg nad oedd ein trigolion wedi gweld gwahaniaeth mawr yn eu casgliadau gan fod adnoddau ychwanegol wedi ei roi i geisio goresgyn y problemau yma. Arweiniodd hyn at wariant sylweddol, ac yn wir, Cyngor Gwynedd oedd yr awdurdod ail drytaf yng Nghymru o ran gwariant fesul cartref ar wasanaethau gwastraff yn 21-22.

Er mwyn dod i'r afael â hyn, rydym wedi ail edrych ac ail ddylunio'r gwasanaeth casglu, a dyna'r prif reswm pam fod methiannau casglu wedi digwydd, yn enwedig yn ardal Arfon dros y misoedd diwethaf.

Fodd bynnag, mae'r gwaith o osod y sylfaen rheolaethol wedi ei gwblhau. Rydym hefyd bellach wedi cyfarfod a llythyru pob aelod o staff er mwyn ategu ein disgwyliadau. Mae'r trefniadau newydd sydd wedi eu rhoi yn ei le i'w weld yn dwyn ffrwyth, a disgwyliwn y bydd trigolion Gwynedd yn gweld gwelliant yn eu casgliadau.

Efallai na fydd y gwasanaeth yn berffaith ar y dechrau. Ni allwn warantu y bydd pob bin wedi ei gasglu ar yr amser cywir pob tro. Ond mae ymdrechion yn cael eu gwneud i wella

cyfathrebu efo'r cymunedau drwy'r roi gwybodaeth amserol ar y cyfryngau cymdeithasol ac i aelodau lleol. Os bydd y criwiau wedi methu casglu ar y diwrnod arferol, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i'w gasglu ar y diwrnod canlynol.

Mae hysbyseb am ddwy swydd wedi eu hysbysebu ar 22/06/2023, a bydd hyn help i oresgyn unrhyw broblemau staffio yn y tymor byr. Rydym hefyd yn ailedrych ar ein fflyd, er mwyn sicrhau ein bod efo'r cerbydau mwyaf addas a dibynadwy. Byddem hefyd yn buddsoddi mewn technoleg fydd yn cynorthwyo'r arweinyddion tîm i reoli'r cylchdeithiau yn fwy effeithlon.

Ymddiheurwn am yr anhwylystod mae hyn wedi ei achosi i drigolion Gwynedd, ond rydym yn ffyddiog y gwelwn wasanaeth y gallwn fod yn falch ohono eto, i'n staff a'n trigolion yn fuan iawn."

### **(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Gwynfor Owen**

"Fel un sydd yn cynrychioli dau o'r traethau gorau yn y byd, sef Traeth Llandanwg a Thraeth Harlech, gan hefyd ddatgan bod amryw o draethau eraill yn ein Sir yn disgyn i'r un categori, hoffwn ddatgan fy siom nad oedd y Cyngor wedi gwneud cais am Faner Glas i unrhyw un o'n traethau eleni. Gai ofyn y rheswm pam na wnaeth y Cyngor ymgeisio?"

#### **Ateb – Dirprwy Arweinydd ac Arweinydd Cabinet Economi, Y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Yng Nghymru, mae Gwobrau Traeth Baneri Glas yn cael eu gweinyddu gan Cadw Cymru'n Daclus. Mae'n broses flynyddol, ac mae ceisiadau yn cael eu asesu yn erbyn canllawiau a meini prawf penodol. Mae canllawiau Gwobrau Traeth Baneri Glas yn cael eu hadolygu yn flynyddol, gyda gofynion cynyddol ar awdurdodau lleol.

Yng Ngwynedd, mae'r Cyngor yn darparu swyddogaethau rheoli traethau drwy'r Gwasanaeth Morwrol. Mae'r Gwasanaeth yn paratoi asesiadau risg unigol o'r prif draethau yn flynyddol – a'r trefniadau rheoli traethau yn seiliedig ar fesurau lliniaru risg sydd wedi eu hadnabod yn yr asesiadau risg. Am dros ugain mlynedd mae ceisiadau a gyflwynwyd gan y Cyngor wedi eu cymeradwyo ar y sail yma. Bellach, mae canllawiau Baneri Glas yn nodi fod angen asesiad annibynnol er mwyn ystyried rhai agweddau penodol, ac yn hyn o beth nad yw asesiadau risg y Cyngor yn ddigonol. Mae Asesiadau Risg y Cyngor yn cael eu paratoi gan staff profiadol, wedi cymhwysu, a gyda dealltwriaeth fanwl o'r traethau unigol.

Mae newidiadau diweddar i ganllawiau Gwobrau Baneri Glas wedi bod y destun trafodaeth gyda awdurdodau lleol eraill Gogledd Orllewin Cymru. Amlygwyd pryderon fod gofynion cynyddol yn ddrud, yn feichus ac yn groes i drefniadau rheoli sefydledig, ac felly penderfynwyd na fydd Cyngor Gwynedd, Cyngor Ynys Mon na Chyngor Conwy yn cyflwyno ceisiadau eleni. Nid yw Cyngor Gwynedd wedi dathlu Gwobrau Baneri Glas yn ystod dwy allan o'r dair mlynedd ddiwethaf, ac er hynny, mae ein traethau wedi bod ymysg y prysuraf erioed. Dim ond un cynllun achredu yw'r Faner Las sy'n gwerthuso traethau ar sail meini prawf amrywiol, na fyddai o reidrwydd yn dathlu rhinweddau arbennig traethau Llandanwg a Harlech fel a gyfeirir atynt.

Mae ein traethau mor lân, diogel a phoblogaidd ag y buont erioed. Mae ansawdd dŵr yn cael ei fesur yn rheolaidd, gyda llawer o draethau'n cyrraedd y safon uchaf 'rhagorol'. Mae

ein traethau yn parhau i fod ymhlith y gorau yng Nghymru a byddant yn parhau i ddenu miloedd o ymwelwyr eto yr haf hwn”.

#### (4) Cwestiwn Y Cynghorydd Jina Gwyrfa

“Mewn cydweithrediad efo Cadw Cymru’n Daclus mae llawer o gymunedau Gwynedd yn ceisio lleihau sbwriel. Mae’r ‘Tîm Tacluso’ yn gosod biniau ychwanegol mewn mannau strategol.

Ond, mae problem sbwriel yn cael ei gwaethygu’n aml, er yn anfwriadol, gan y Cyngor hwn gan fod:

- i) Loriau sbwriel/aigylchu yn ‘sbydu sbwriel wrth wibio trwy’r ardal;
- ii) Contractwyr torri glaswellt yn gadael y toriadau a sbwriel sydd wedi dod i’r golwg ar ochr y lôn.

Hoffwn wybod pa fesurau sydd ar y gweill i wella’r sefyllfa hon?”

#### **Ateb – Aelod Cabinet Priffyrdd, Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd, Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (ar ran y 2 wasanaeth perthnasol, sef PP/YGC ac Amgylchedd)**

“Yn anffodus mae hyn yn broblem hanesyddol gyda’r gwasanaeth casglu, ac yn amlwg mae’r sefyllfa yn gwaethygu pan mae’r tywydd yn wyntog. Mae’n debyg hefyd nad yw’r Cartgylchu rydym yn ei ddefnyddio ar gyfer yr ailgylchu yn gyfarpar mwyaf gwydn mewn rhai amodau. Yn ogystal, rydym yn gweld a derbyn cwynion bod rhai lleoliadau yn waeth na’i gilydd, sef o amgylch mynedfeydd i’n safleoedd trosglwyddo a rhai llwybrau sy’n cael eu gwasanaethau gan y loriau bychain. Rydym yn bwriadu ail-edrych ar y cerbydau yma er mwyn eu hamnewid am rai mwy addas i bwrpas. Byddwn hefyd yn cadw golwg ar y sefyllfa, drwy ein trefn cwynion, ac yn atgoffa’r gweithlu i gau drysau cefn y lori ar ôl llwytho a chyn gyrru at y bin nesaf.

Ymhellach i’r sylw hoffwn gadarnhau hefyd y bydd y Gwasanaeth Gwasanaethau Stryd yn adolygu eu llwybrau codi sbwriel (litter pick) o fewn yr ardal drefol. O ganlyniad, bydd y swyddogion yn gweithio’n agos gyda’r Gwasanaeth Casglu Gwastraff ac Ailgylchu i sicrhau, cyn belled ag sy’n rhesymol bosibl, fod casglu sbwriel mewn lleoliadau penodol yn digwydd yn fuan ar ôl y cylchdeithiau ailgylchu fel y gellir casglu unrhyw wastraff a ollyngir yn brydlon.

Trefnir gwaith cynnal ymylon ffordd oddi allan y trefi a phentrefi drwy gontractwyr preifat. Mae’r gytundeb ond yn cynnwys y gwaith torri, a threfnir y gwaith codi mân ysbwriel ‘litter pick’ yn ddilynol gan ein timau gwaith mewnol. Sut bynnag, mae gofyn i’r contractwyr adrodd ar eu lleoliad yn ddyddiol wrth drefnu’r gwaith torri fel bydd modd yn ddilynol gyd gordio y gwaith ‘litter pick’ a hyn yn amserol wedi’ y gwaith torri ymylon. Mae rhai lleoliadau yn arddangos mwy o fân ysbwriel, megis ffyrdd prysuraf y Sir, a bydd ein hadnodd yn cael ei flaenoriaethu i’r ardaloedd yma gan ymweld ar ardaloedd eraill yn ddilynol.

Yn anffodus mae’n rhaid cydnabod fod mân ysbwriel yn cael ei ollwng ar hyd ein ffyrdd sydd nid yn unig yn dŵr cyfraith ond hefyd yn ddolur llygad ac yn cael effaith ddrwg ar yr amgylchedd brydferth sydd gennym yma yng Ngwynedd. Byddwn hefyd dros y misoedd

nesaf yn codi ymwybyddiaeth trigolion, ac ymwelwyr i waredu eu sbwriel mewn modd priodol a chywir.”

**(5) Cwestiwn Y Cynghorydd Elin Hywel**

“Gyda chynnydd sylweddol mewn amlyged defnydd Vapes gan bobl ifanc, yn benodol gan bobl ifanc oed addysg uwchradd, pa gamau mae'r Cyngor yn ei gymeryd i gefnogi ein hysgolion uwchradd i ddod i'r afael â'r her newydd a phryderus yma?”

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown**

“Yn ôl ymchwil diweddar ‘*Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd (ASH) Defnyddio e-sigaréts (vapes) ymhlith pobl ifanc yn y DU. 2023.*’ mae cyfran y plant sy'n arbrofi gyda vapiro wedi cynyddu 50% flwyddyn ar ôl blwyddyn; o un o bob tri ar ddeg i un o bob naw. Mae ymwybyddiaeth plant o hyrwyddo vapes hefyd wedi cynyddu, yn enwedig mewn siopau lle mae mwy na hanner yr holl blant yn dweud eu bod yn gweld e-sigaréts yn cael eu hyrwyddo, ac ar-lein lle mae bron i draean yn adrodd am hyrwyddo e-sigaréts.

Mae hyn yn broblem gynyddol yn ein hysgolion uwchradd ar draws yr Awdurdod ac yn adlewyrchu'r un her sydd yng nghymunedau ar draws Gwynedd.

Mae'r her o ddisgyblion yn cychwyn Vapiro yn dod o broffil oedran penodol sydd yn bennaf wedi ei gysylltu ag ysgolion uwchradd. Yn sgil hyn mae'n addas i ysgolion adolygu ac addasu polisïau perthnasol yn y maes hwn. Yn ychwanegol i hyn mae'n hanfodol bod ysgolion yn addasu dyluniad eu cwricwlwm i ymateb i heriau penodol megis Vapiro. Mae Cwricwlwm i Gymru a'r maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles yn llwyfan addas iawn i gyflawni hyn.

Mae'r Adran Addysg yn disgwyl cadarnhad am arian grant i gefnogi'r maes yma a bwriedir comisiynu gwaith penodol i gefnogi ysgolion. Fel rhan o'r cynllun yma bydd gwaith yn cael ei wneud i dargedu dysgwyr a chodi ymwybyddiaeth o beryglon Vapiro, camddefnyddio sylweddau, effaith ar y corff, iechyd meddwl ynghyd â'r goblygiadau cymdeithasol. Bydd y cynllun yn cael ei weithredu ar y cyd gyda gwasanaeth 'Be di'r sgôr?', Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad.

Mae ymchwil a data am y peryglon o Vapiro yn gyfyngedig iawn, er hynny bydd yr Adran Addysg yn parhau i fod yn rhagweithiol drwy fanteisio ar unrhyw arweiniad neu hyfforddiant sydd yn cael ei ddatblygu yn y maes yma.

Yn ychwanegol at yr uchod, mae'n gyfrifoldeb arnom oll i sicrhau ein bod yn adrodd ar unrhyw achosion anghyfreithlon o werthu nwyddau Vapiro i blant a phobl ifanc o dan 18 oed drwy'r gwasanaeth Safonau Masnach.”

**(6) Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

“O ystyried:-

- Na fu unrhyw newid sylweddol i bolisi addysg Gymraeg Gwynedd yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf i geisio gwrthweithio shift iaith a'r breuo parhaus, o gyfrifiad i gyfrifiad, ar y gymdeithas Gymraeg weddillol,

- Ac wedi iddi ddod i'r amlwg nad yw'r adran addysg yn monitro cyfrwng yr addysg yn ysgolion y sir,
- Ac yn wyneb yr ansicrwydd ynghylch union nifer y disgyblion yn y sir sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Saesneg

Onid ydy hi'n bryd gafael ynnddi a rhoi ystyriaeth ddifrif, o'r newydd i gynyddu'r ddarpariaeth ym mhob ysgol uwchradd yng Ngwynedd a oedd gynt yng nghategori 2A neu 2B fel ei bod yn cyfateb i'r ddarpariaeth mewn ysgolion Cymraeg 3P (hynny yw 100% o'r plant yn gwneud o leiaf 90% o'u haddysg yn Gymraeg) a chyflwyno cyfundrefn fonitro gyfaddas rhag blaen i sicrhau hynny?"

### **Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown**

"Cyfeiriaf at yr ymateb a roddais i gwestiwn nid annhebyg gan y Cynghorydd Rhys Tudur yn y Cyngor Llawn diwethaf ar 4 Mai 2023. Bryd hynny, bu i mi nodi mai mater lleol i ni yng Ngwynedd yw ein polisi iaith addysg, a mater i'r Cabinet yw ystyried i ba raddau yr ydym yn credu bod angen cymryd camau i ddiweddarau'r polisi ai peidio. Mae'r canllaw cenedlaethol ar y drefn categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ganllaw anstatudol ar hyn o bryd, ac nid oes disgwyl i ysgolion gofnodi eu categori yn unol â'r canllaw tan CYBLD (PLASC) Ionawr 2024. Fframwaith genedlaethol weinyddol yw'r drefn gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn hytrach nag erbyn i newid polisi yn lleol, ac mae fframwaith weinyddol genedlaethol wedi bodoli ers 2007.

Yn yr un ymateb, bu i mi hefyd nodi gyda balchder y bwriad i ddiweddarau'r Polisi Iaith er mwyn adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi bod yn mynd rhagddynt yn y byd addysg yn ddiweddar e.e. bydd Cwricwlwm i Gymru yn weithredol ymhob un o ysgolion Gwynedd a Chymru o Fedi 2023 ymlaen. Rydym hefyd fel Adran wedi bod yn casglu gwybodaeth am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ein hysgolion, a bydd y wybodaeth yma, ynghyd â chanfyddiadau'r ymchwiliad craffu sydd yn edrych ar y Gymraeg mewn 3 ysgol uwchradd yn y sir (a fydd yn hysbys ym Medi 2023), o gymorth wrth i ni fynd ati i ddiweddarau'r Polisi Iaith dros y misoedd nesaf.

Wrth gwrs, ein Polisi Iaith sydd yn gyrru'r drefn gategoreiddio ysgolion, gan fod y drefn gategoreiddio'n seiliedig ar ddarpariaeth ein hysgolion a ddiffinnir gan ein polisi. Yn y cyd-destun hwn, hoffwn nodi fod trafodaethau wedi cychwyn i ymateb i'r angen i ddiweddarau'r polisi, a bydd y gwaith yma yn gynhwysol ac yn destun ymgynghori, gyda'r bwriad i gyflawni'r nod hwn o fewn 12 mis."

### **(7) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

"O ystyried y feirniadaeth a gafodd y Cyngor mewn erthygl ar Cymru Fyw '*Teithio Llesol: Siom nad yw rhai Cynghorau â diddordeb*' a oedd yn ymwneud â cheisiadau am grantiau llwybrau Teithiau Llesol y tu hwnt i'r pot craidd blynyddol o £500,000 y flwyddyn;

I ba raddau y mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael grantiau Teithio Llesol sydd tu hwnt i'w pot craidd ar gyfer ardaloedd gwledig tros y 5 blynedd diwethaf ac i ba raddau y mae angen i'r Cyngor wella eu strwythurau staffio er mwyn cael mwy o lwyddiant i wneud ceisiadau yn y dyfodol?"

### **Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**



“Diolch i’r Cynghorydd Rhys Tudur am y cwestiwn. Yn sicr, mae gwella isadeiledd cerdded a beicio yng Ngwynedd yn un o flaenoriaethau’r Cyngor a thros y blynyddoedd mae Cyngor Gwynedd wedi cyflawni gwaith arloesol yn y maes yma, gyda 116 KM o lwybrau cerdded a beicio ar draws y sir.

Ond mae’n bwysig cydnabod bod cyflwyno gwelliannau i’r rhwydwaith yn gostus iawn ac felly mae’r Cyngor yn ddibynnol iawn ar allu denu arian grant er mwyn cyflawni unrhyw newid sylweddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig grantiau ariannol ar gyfer cynlluniau Teithio Llesol yn flynyddol. Tra nad ydi bob amser yn amserol i gyflwyno cais oherwydd amrediad o resymau gan gynnwys sicrhau cydsyniad tirfeddianwyr ac ati, mae gwaith sylweddol yn bwrw ymlaen i sicrhau fod cynlluniau yn eu lle a bidiau am arian grant mor gryf â phosib’.

Mae’r galw am yr arian yma yn gystadleuol iawn ac er mwyn llwyddo, mae angen cyflwyno tystiolaeth ar sut y byddai unrhyw gynllun yn cyfarch nodau penodol Llywodraeth o:

- Leihau’r nifer o gerbydau presennol ar y rhwydwaith y ffyrdd;
- Cynyddu’r nifer o bobl sy’n cerdded a beicio ar gyfer siwrneiau pob dydd.

Mewn ardaloedd gwledig, gyda phoblogaeth is, mae gwneud yr achos a chyfarch y meini prawf yma yn llawer mwy heriol.

Mewn ymateb i hynny, mae cynghorau, sy’n cynrychioli ardaloedd gwledig yng nghanolbarth Nghymru, yn ceisio rhoi pwysau ar y Llywodraeth i lywio cynllun strategol ar gyfer teithio Llesol mewn ardaloedd gwledig er mwyn sicrhau fod ein cymunedau gwledig yn derbyn cefnogaeth haeddiannol.

Eleni, cyflwynodd Cyngor Gwynedd gais am arian i adeiladu 3 cynllun sef:

- Llwybr cerdded a beicio rhwng Tywyn ag Aberdyfi gwerth £1.6m;
- Llwybr cerdded a beicio ar Ffordd Penrhos, Bangor gwerth £1.2m;
- Llwybr cerdded a beicio rhwng Stad Pengelli Wyn a Chanolfan Hamdden Arfon, Caernarfon gwerth £350,000.

Mae’r Cyngor wedi llwyddo i ddenu arian ar gyfer adeiladu Llwybr Teithio Llesol ar Ffordd Penrhos, ond ni fu’r 2 gais arall yn llwyddiannus eleni. Yn ogystal, mae £280,000 wedi ei sicrhau o gronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau i wella darpariaeth cerdded a beicio ger Ysgol Godre’r Berwyn yn Y Bala.

Yn y cyfnod 2018/19 hyd 2022/23, fe wnaeth y Cyngor gyflwyno ceisiadau fyddai gwerth oddeutu £10.5 miliwn, a derbyn oddeutu £1.5 miliwn a ofynnwyd amdano trwy ffynonellau ariannol Teithio Llesol a Llwybrau Diogel yn y Gymuned.

Er hynny, rydym hefyd wedi elwa o ddefnyddio’r arian craidd i ddatblygu cynlluniau sydd wedi galluogi’r Cyngor i ddenu arian o ffynonellau gwahanol, yn cynnwys £2.6 miliwn ar gyfer cyflwyno gwelliannau i gylchfan Brynrefail ac rydym hefyd wedi llwyddo i ddenu sicrhau £1.8 miliwn o’r gronfa Ffyniant Bro ar gyfer cyflwyno gwelliannau i Lôn Las Ogwen.

Mae swyddogion yn trafod sut allwn ni gryfhau cynlluniau eraill gyda Thrafnidiaeth Cymru er mwy ceisio sicrhau cyllid i’r dyfodol. Mae swyddogion yn defnyddio cyfran o’r £500,000 arian craidd Teithio Llesol sydd wedi ei dderbyn i ddatblygu cynlluniau mewn ardaloedd

eraill, gyda'r bwriad o allu cyflwyno ceisiadau am grant i wireddu cynlluniau yn y blynyddoedd nesaf.

Tra'n derbyn fod yna heriau capasiti wedi wynebu'r Gwasanaeth sy'n bennaf gyfrifol am ddatblygu a rheoli cynlluniau Teithio Llesol dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, rydw i'n hyderus fod y gwaethaf y tu cefn i ni. Yn ogystal, mae uned llwybrau a mynediad wedi ymuno gyda'r Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau, a dwi'n hyderus y bydd y cydweithio agos ar draws y maes yn cryfhau ein hymdrechion yn y maes Teithio Llesol i'r dyfodol."